

# Rheolau

## Rheolau Ysgol a Chanllawiau

1. Disgwylir i bob plentyn fynychu'r ysgol yn rheolaidd. Pan fo rheswm anorfod dros absenoldeb dylid hysbysu'r prifathro **cyn gynted ag y bo modd**. Mae hyn yn bwysig am fod y Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gofyn i ysgolion am fanylion parthed absenoldebau.
2. Peth annifyr i blentyn yw gorfod dod i'r ysgol yn hwyr. Hyderwn y gwneir pob ymdrech gan rieni i osgoi hyn. Nid yw staff yr ysgol yn derbyn cyfrifoldeb am blant sydd yn cyrraedd yr ysgol cyn 8.40 a.m., ac nid ydynt ychwaith yn derbyn cyfrifoldeb am blant sydd yn dal ar libart yr ysgol wedi 3.40 p.m (ar wahân i'r plant hynny sydd yn teithio gyda chaniatâd yr Awdurdod Addysg yn y tacsis ysgol).
3. Mae gennym siop ffrwythau yn yr ysgol yn ystod amser egwyl bob prynhawn fydd yn gwerthu ffrwyth am £1 yr wythnos (£1.50 i deulu). Byddwn yn casglu'r arian ar **Ddydd Llun**.
4. Am resymau diogelwch ni chaniateir i ddisgyblion farchogaeth beiciau o fewn terfynau'r ysgol onibai fod y disgyblion hynny o dan oruchwyliaeth.
5. Am yr un rhesymau gofynnir i rieni beidio dod a'u ceir ymhellach na'r fynedfa.
6. Ceisir meithin yn y plant yr after o fod yn gyfrifol am eu heiddo personol, ac ni ddylid gadael eiddo gwerthfawr mewn pocedi cotiau, bagiau ac yn y blaen. Fe gymer yr athro/ athrawes dosbarth ofal unrhyw eitem arbennig o eiddo os mynnir. Ni all yr athrawon dderbyn cyfrifoldeb am eitemau megis sticeri chwaraewyr pêl-droed a.y.y.b, y mae y plant yn ei casglu o dro i dro.
7. Fe geisir cysylltu a rhieni ar unwaith os credir fod angen am hynny, e.e. mewn achos o fan ddamweiniau neu salwch
8. Cesglir arian cinio ar **fore Gwener** bob wythnos. Nid oes pwrpas dod ag arian i'r ysgol ar brynhawn Gwener gan fod y llyfrau wedi eu cwblhau erbyn hynny. Buasem yn gwerthfawrogi pe baech yn gallu darparu'r newid cywir. Gallwch dalu'r arian cinio gyda siec yn daladwy i "Cyngor Gwynedd". Dylech nodi eich cyfeiriad ar gefn y siec.
9. Trefnir i ffotograffydd cymwys ddod i dynnu lluniau'r plant unwaith bob dwy flynedd fel rheol, a cheir cyfle i'w teuluoedd brynu'r lluniau yn yr Hydref.
10. Am resymau diogelwch ni chaniateir i ddisgyblion wisgo clust-dlysau sydd yn hongian.
11. Dylai pob disgybl ddod a **dillad addad h.y. Crys-t, trowsus bach a phymys ar gyfer gwersi ymarfer corff/ chwaraeon**. Gwerthir grysau-t addas at gyfer Addysg Gorfforol yn yr ysgol.
12. Ni chaniateir i'r athrawon roddi moddion i'r plant oni bai fod y pennaeth wedi derbyn caniatad ysgrifenedig gennych o flaen llaw ar ffurflen **AM2** (sydd ar gael yn yr ysgol). Rhaid cofio nad oed rheidwydd ar yr ysgol i ddarparu'r gwasanaeth hwn.